Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Brynhyfryd
# Ffordd yr Wyddgrug
# Rhuthun
# Sir Ddinbych
# LL15 1EG

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Brynhyfryd yn ysgol naturiol ddwyieithog, gymysg 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd, mae 1,061 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 189 yn y chweched dosbarth.

Mae dau neu dri dosbarth ym mhob grŵp blwyddyn yn astudio'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, mae un grŵp i ddysgwyr y Gymraeg nad ydynt yn gyfan gwbl hyddysg eto yn y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang; daw 50% o'i disgyblion o dref Rhuthun, a'r gweddill o'r ardal wledig gyfagos. Cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 6.9%, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.5%.

Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu lawn. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan un y cant o ddisgyblion a nodwyd bod angen rhywfaint o gymorth ar 17% arall. Mae'r ffigurau hyn islaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Daw tua 66% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Saesneg yn bennaf, a daw 32% o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae tri deg pump y cant o ddisgyblion yn siarad Cymraeg mamiaith neu i safon gyfatebol yn yr ysgol. Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn cael cymorth addysgu ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae gan yr ysgol bennaeth dros dro sydd wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2015. Caiff ei gefnogi gan bennaeth gweithredol am ddeuddydd yr wythnos. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth hefyd yn cynnwys dirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol, a rheolwr busnes a safle.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol yn Ysgol Brynhyfryd yn 2014-2015 yw £4,770 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yw £5,074 a'r lleiafswm yw £4,191. Mae Ysgol Brynhyfryd yn y pedwerydd safle o'r saith ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

## Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar draws pob cyfnod allweddol sy'n bodloni anghenion disgyblion
- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn yn datblygu a gweithredu cynllun priodol i wella medrau rhifedd disgyblion
- Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddarparu profiad dysgu priodol i ddisgyblion
- Mae anogwyr dysgu'n gwneud cyfraniad eithriadol at gefnogi lles disgyblion
- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos hapus, cyfeillgar a gofalgar

Fodd bynnag:

- Yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant cyfyngedig ym mherfformiad yr ysgol yn y dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg, Cymraeg a Saesneg
- Mewn tua hanner y gwersi, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar yr athro ac nid ydynt yn gweithio'n ddigon annibynnol
- Ni wnaeth yr ysgol ymateb yn ddigon cyflym i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae ansawdd y ddarpariaeth medrau mewn adrannau ac ar eu traws yn anghyson
- Mae gormod o anghysondeb yn ansawdd yr addysgu mewn adrannau a rhyngddynt
- Ym mwyafrif yr achosion, nid yw marcio athrawon yn ddigon trylwyr ac nid yw'n rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella
- Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i thanddatblygu ar draws y cwricwlwm

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- Mae'r pennaeth dros dro wedi'i gefnogi'n effeithiol gan y pennaeth gweithredol i ddatblygu nodau ac amcanion strategol newydd i'r ysgol
- Mae rolau a chyfrifoldebau'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi cael eu hailddiffinio'n ddiweddar fel eu bod yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau allweddol yr ysgol ar gyfer gwella
- Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fwyfwy clir o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Er Medi 2015, mae gan yr ysgol gynllun cydlynus i gefnogi gwelliant

Fodd bynnag:

- Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf
- Nid yw'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi llwyddo i wneud yn siŵr bod polisïau allweddol, fel ar addysgu ac asesu, yn rhoi arweiniad clir i staff ar eu gwaith
- Nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi monitro'r broses o weithredu polisïau'r ysgol yn ddigon effeithiol ac mae hyn wedi arwain at anghysondeb ar draws pynciau ac ansawdd gwael mewn ychydig feysydd
- Dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi bod yn llwyr atebol am ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb
- Ni chaiff polisi'r ysgol ar reoli perfformiad ei weithredu'n ddigon cyson i gefnogi gwelliant yr ysgol
- Nid yw prosesau hunanarfarnu bob amser yn ddigon trylwyr i nodi'n gywir yr holl feysydd pwysig i'w gwella
- Mae partneriaethau â rhieni wedi'u tanddatblygu

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4.

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn enwedig llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A3 Gwella ansawdd a chysondeb addysgu ac adborth ysgrifenedig

A4 Gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws y cwricwlwm

A5 Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella yn drylwyr ac yn gyson fel bod arweinwyr ar bob lefel yn llwyr atebol am bob agwedd ar y ddarpariaeth a'r safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb

A6 Cryfhau'r partneriaethau â rhieni

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Dros y pedair blynedd diwethaf, bu gwelliant cadarn ym mherfformiad yr ysgol mewn lleiafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, bu gwelliant cyfyngedig ym mherfformiad yr ysgol yn y dangosyddion pwysicaf. Yn 2014, ar draws llawer o ddangosyddion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol.

Ychydig iawn o welliant y mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi'i ddangos dros y pedair blynedd diwethaf ac, yn 2014, roedd yn gosod yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ar ôl treulio tair blynedd yn yr 50% uwch. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd hwn dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Fe wnaeth perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wella yn 2013 ac mae'r gwelliant hwn yn parhau yn 2014. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg.

Yn 2014, cyflawnodd yr holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 13 drothwy lefel 3, er bod dirywiad yn y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog a gyflawnwyd gan ddisgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar lefel 5 neu uwch, bu tuedd at i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd a'r pynciau craidd yn unigol. Yn 2014, mae perfformiad yn y dangosyddion hyn yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn ystod y tair blynedd flaenorol, mae perfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg wedi bod yn wannach.

Yng nghyfnod allweddol 3, gwelir y gwahaniaeth mwyaf rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn Cymraeg a Saesneg. Nid yw bechgyn yn ysgrifennu cystal â merched. Yng nghyfnod allweddol 4, mae gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched ar lefel 2 mewn Cymraeg. Mae perfformiad bechgyn yn y pwnc hwn yn wannach na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Yn 2014, yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wella'n sylweddol ym mhob dangosydd ansawdd. Yng nghyfnod allweddol 4, fe wnaeth perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wella ym mwyafrif y dangosyddion.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae disgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac mewn ychydig bach o wersi, gwnânt gynnydd rhagorol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Mewn tua hanner y gwersi, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar yr athro ac nid ydynt yn gweithio'n ddigon annibynnol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gallu adalw dysgu blaenorol yn gywir. Mae'r disgyblion hyn yn adalw gwybodaeth ffeithiol yn dda er nad ydynt bob amser yn dangos eu medrau deall a meddwl cystal. Mae adalw lleiafrif o ddisgyblion gallu is yn wannach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn grwpiau a pharau ac yn defnyddio'u hamser yn gynhyrchiol. Fodd bynnag, mae ychydig yn colli diddordeb pan na fydd gweithgareddau'n cynnig digon o her neu pan fyddant yn cael gormod o amser i gwblhau'r gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau'r athro ac mae llawer yn gwrando'n dda ar eu cymheiriaid pan fyddant yn ateb cwestiynau ac yn cyflwyno'u barn. Mae mwyafrif y disgyblion yn awyddus i ateb cwestiynau yn y dosbarth a dangosant eirfa dda sy'n benodol i'r pwnc. Mae bechgyn yn arbennig yn gwneud cyfraniadau hyderus at drafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, mae tua hanner y merched braidd yn dawedog ac er eu bod yn ateb cwestiynau pan gânt eu hannog, maent yn llai tebygol o gynnig eu barn neu ddarparu ymatebion llafar sydd wedi'u datblygu'n dda.

Mae geirfa eang ac amrywiol gan fwyafrif y disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl. Ysgrifennant at amrywiaeth o ddibenion ar draws y cwricwlwm, gan sicrhau bod yr iaith, y cynnwys a'r naws yn briodol i'r gynulleidfa ac i'r arddull ysgrifennu. Gall llawer o ddisgyblion strwythuro'u gwaith yn dda ac, mewn lleiafrif o enghreifftiau, mae disgyblion yn ailddrafftio'u gwaith i gryfhau ansawdd eu hymatebion ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae disgyblion gallu canol a gallu is yn aml yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg. Mewn lleiafrif o enghreifftiau ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn sicr ynghylch nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson mewn adrannau ac ar eu traws.

At ei gilydd, nid yw disgyblion yn y ffrwd ddwyieithog yn ymarfer eu medrau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn ddigon rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae gwaith anghyflawn yn llyfrau ychydig o ddisgyblion ac er bod yr athro wedi nodi hyn, nid yw disgyblion yn ymateb yn rheolaidd nac yn cywiro'u gwaith. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn cymryd digon o ofal wrth gyflwyno'u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus a dangosant ddealltwriaeth glir o'r testun a ddarllenant. Gallant frasddarllen, sganio ac adalw gwybodaeth yn briodol i ategu eu dysgu'n dda a dod i gasgliadau yn effeithiol i ddatblygu eu dealltwriaeth.

Mae medrau rhifedd da gan fwyafrif o ddisgyblion, er bod lleiafrif o ddisgyblion gallu is yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r pedair rheol rhif. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da i ddatrys problemau. Mewn ychydig iawn o bynciau, mae disgyblion yn ymarfer eu medrau rhifedd yn rheolaidd, gan lunio graffiau a dadansoddi tueddiadau mewn data.

Yn 2014, fe wnaeth holl ddisgyblion Blwyddyn 9 gyflawni cymwysterau medrau hanfodol ar lefel 1 neu lefel 2 mewn TGCh. Fodd bynnag, mae medrau TGCh

disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'u tanddatblygu ac nid ydynt yn ymarfer amrywiaeth ddigon eang o fedrau.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw enghreifftiau o fwlio. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach ac mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ymarfer corff a bwyta'n iach. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau ffitrwydd a chwaraeon a drefnir gan y clwb 5x60, fel badminton, rygbi, futsal a thrampolinio.

Er 2011, bach iawn o welliant a welwyd mewn cyfraddau presenoldeb. Yn 2014, mae cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar ôl treulio tair blynedd yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae data heb ei wirio yn awgrymu y bu ychydig o welliant yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n araf yn ystod y tair blynedd diwethaf, er, yn 2014, mae'r gyfradd bresenoldeb ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn parhau islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae data heb ei wirio ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn awgrymu gwelliant sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi yn brydlon. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, maent yn gwrtais i ymwelwyr ac athrawon ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn dda yn eu dysgu, gan gymryd gofal a balchder yn eu gwaith.

Mae gan yr ysgol Grŵp Eco a Grŵp Gweithredu a Maeth gweithgar iawn. Mae'r grwpiau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth o ddatblygiadau, fel gwella'r ddarpariaeth yn y ffreutur. Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig am ei rôl ac mae wedi cyfrannu at benodi staff uwch a rhoi adborth defnyddiol ar bolisïau'r ysgol. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion o'r farn nad yw'r cyfathrebu rhwng aelodau'r cyngor ysgol a gweddill y myfyrwyr yn effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn ogystal, mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn mentrau gwerth chweil fel cyngherddau i godi arian i elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd priodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a gynigir o Flwyddyn 10 ymlaen mewn partneriaeth â choleg addysg bellach lleol. Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a myfyrwyr y chweched dosbarth yn dilyn

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r ddarpariaeth ôl 16 wedi'i hymestyn yn effeithiol trwy bartneriaeth Dyffryn Clwyd. Trwy hyn, mae'r ysgol wedi gallu cynyddu'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg a gynigir yn y chweched dosbarth.

Cyflwynodd yr ysgol bolisi diwygiedig a phriodol ar waith cartref yn ystod haf 2014 i fynd i'r afael â phroblemau cysondeb ac ansawdd. Fodd bynnag, caiff y polisi hwn ei gymhwyso'n anghyson rhwng adrannau o hyd.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu cynllun priodol i wella medrau rhifedd disgyblion. Mewn ychydig adrannau, mae trefniadau effeithiol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Er Ionawr 2015, mae'r ysgol wedi penodi cydlynydd llythrennedd i ddatblygu'r ddarpariaeth a rhannu arfer orau yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith y gwaith hwn. Mewn ychydig adrannau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ysgol ymateb yn ddigon cyflym i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O ganlyniad, mae anghysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn mewn adrannau a rhyngddynt. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh ar draws y cwricwlwm wedi'i thanddatblygu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i ddisgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg mamiaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 fynd ymlaen a chyflawni cymwysterau addas trwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r pynciau opsiwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r ysgol i ddatblygu medrau iaith disgyblion mamiaith ac ail iaith mewn un dosbarth dwyieithog yng nghyfnod allweddol 3 wedi sicrhau dilyniant ieithyddol yn effeithiol. O Fedi 2015, mae'r ysgol wedi adolygu'r trefniadau hyn yn briodol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7. Mewn ychydig adrannau, mae trefniadau addas i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, hanesyddol ac amgylcheddol Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn nodwedd gref ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth effeithiol gan yr ysgol ar gyfer addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth dda am eu pwnc, datblygant berthynas waith effeithiol gyda disgyblion ac maent yn fodelau iaith cadarn. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strategaethau priodol i reoli ymddygiad yn effeithiol.

Mewn ychydig bach iawn o wersi, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel iawn ar gyfer disgyblion a defnyddiant amrywiaeth eang o adnoddau diddorol a deniadol i symbylu disgyblion yn dda. Yn y gwersi hyn, mae holi gan athrawon yn hynod effeithiol ac mae'n herio disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl yn dda iawn.

Mae mwyafrif yr athrawon yn gwneud defnydd buddiol o ysgogiadau gweledol neu glywedol i ennyn diddordeb disgyblion yn dda, yn enwedig ar ddechrau'r wers. Mewn tua hanner y gwersi, mae'r holi'n effeithiol a threiddgar, gan alluogi disgyblion i ddatblygu eu geirfa a rhoi ymatebion llafar estynedig. Ym mwyafrif y gwersi, mae

athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu priodol i ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn tua hanner o wersi, mae cynllunio athrawon yn canolbwyntio'n ormodol ar fodlon anghenion disgyblion gallu canolig ac nid yw'n talu digon o sylw i herio'r mwyaf abl neu gefnogi'r lleiaf abl.

Mewn lleiafrif o wersi, mae rhediad y wers yn rhy araf ac mae disgyblion naill ai'n cael gormod o amser i gwblhau'r gweithgareddau neu nid yw ystod y gweithgareddau'n cynnig digon o her. Er bod athrawon yn gofyn llawer o gwestiynau ac yn annog disgyblion i roi ymatebion llafar yn y gwersi hyn, nid yw'r holi'n ddigon treiddgar i helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl yn llawn.

Mewn ychydig bach iawn o wersi, nid yw gweithgareddau'n ennyn diddordeb disgyblion ac maent yn colli diddordeb yn gyflym. O ganlyniad, ychydig iawn o gynnydd a wna disgyblion.

Mae marcio yn gyfredol yn y rhan fwyaf o lyfrau, ond mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn amrywio mewn adrannau a rhyngddynt. Mae tua hanner yr athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr achosion, nid yw marcio athrawon yn ddigon trylwyr ac nid yw'n rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion. Yn ogystal, nid yw mwyafrif yr athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i sylwadau nac yn cywiro neu gwblhau eu gwaith yn unol â hynny.

Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid yn dda.

Mae'r ysgol yn datblygu system drylwyr i olrhain cynnydd. Mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i staff am gyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ysgol bellach yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion sydd mewn perygl o danberfformio ac mae'n rhoi strategaethau priodol ar waith i'w cefnogi, er ei bod hi'n rhy gynnar eto i weld effaith lawn y gwaith hwn.

Caiff rhieni adroddiadau am gynnydd eu plant deirgwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd a chynnwys adroddiadau diwedd blwyddyn. Mae lleiafrif o adroddiadau'n darparu targedau defnyddiol sy'n benodol i bwnc i ddisgyblion o ran sut i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae trefniadau cynhwysfawr gan yr ysgol i hybu datblygiad moesol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer cyflwyno'i rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sy'n cwmpasu ystod addas o bynciau perthnasol, fel iechyd a lles. Mae asiantaethau arbenigol, gan gynnwys yr heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y rhaglen. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach.

Yn ystod gwasanaethau a lleiafrif o gyfnodau cofrestru, mae trefniadau priodol i gyflwyno addoli dyddiol ar y cyd. Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb yn y ddarpariaeth ac nid yw rhaglen yr ysgol ar gyfer cyfnodau cofrestru'n rhoi digon o arweiniad i staff ar y gofynion am addoli dyddiol ar y cyd. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol o ran addoli dyddiol ar y cyd.

Mae gan yr ysgol strategaethau priodol i ddelio â bwlio. Mae arweinwyr blwyddyn a staff cymorth yn mynd ar drywydd y nifer bach iawn o enghreifftiau o fwlio y mae staff yn cael gwybod amdanynt yn brydlon ac yn effeithiol. Mae tiwtoriaid blwyddyn, penaethiaid blwyddyn a staff cymorth yn gweithio'n gyson dda gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion disgyblion unigol, yn benodol y disgyblion mwyaf agored i niwed. Mae anogwyr dysgu'n gwneud cyfraniad eithriadol at gefnogi lles disgyblion ac maent yn hynod effeithiol wrth sicrhau cyflawniadau gwerth chweil gan ddisgyblion ag amrywiaeth o anawsterau personol ac emosiynol. Maent yn nodi problemau'n gyflym ac yn rhoi strategaethau ar waith sy'n llwyddo i leihau'r risg o ddieithrio a niwed. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae trefniadau priodol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 7. Mae disgyblion a rhieni'n cael gwybodaeth ac arweiniad cadarn am ddewisiadau opsiwn a gyrfaoedd.

Mae'r broses adolygu flynyddol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion statudol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn cynlluniau datblygu unigol yn effeithiol i'w helpu i gynllunio i fodloni anghenion y disgyblion hyn mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Brynhyfryd yn gymuned gynhwysol ag ynddi ethos hapus, cyfeillgar a gofalgar lle y mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a lle y gallant fwrw ymlaen â'u haddysg yn Gymraeg neu Saesneg. Mae trefniadau'r ysgol yn sicrhau bod gan bawb gyfle cyfartal i fanteisio ar weithgareddau allgyrsiol yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i herio stereoteipio a rhagfarn.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a chadw'n dda a darparant amgylchedd dysgu ysgogol. Bu nifer o welliannau i'r amgylchedd dysgu a'r adeilad dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau yn cefnogi dysgu'n dda ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn llwyddiannus. Nodwedd arbennig o gadarn gan yr ysgol yw'r arddangosfeydd o waith celf a thecstilau disgyblion i wella'r amgylchedd.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da sy'n cyfateb i anghenion disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau hamdden ar y safle, sy'n cynnwys pwll nofio, campfa ac ardal adloniant, yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Yn ystod y chwe mis diwethaf, bu newidiadau sylweddol i uwch arweinyddiaeth yr ysgol oherwydd secondiad y pennaeth parhaol. Ar hyn o bryd, mae un o'r ddau ddirprwy bennaeth yn ymgymryd â rôl y pennaeth dros dro. Caiff ei gefnogi'n briodol gan bennaeth gweithredol am ddeuddydd yr wythnos. Mae'r pennaeth dros dro a'r pennaeth gweithredol wedi cydweithio'n dda i ddatblygu nodau ac amcanion strategol newydd sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella presenoldeb ac ymddygiad. Mae'r weledigaeth newydd wedi'i seilio ar 'ddeilliannau rhagorol i bawb' ac mae'n cynnwys ffyrdd newydd o weithio er mwyn darparu cyfathrebu effeithiol, creadigol a chlir. Maent wedi rhannu'r rhain yn effeithiol gyda staff ond nid yw pob rhiant yn ymwybodol o'r weledigaeth a'r nodau. Yn ddiweddar, mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi cael eu hailddiffinio fel eu bod yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau allweddol yr ysgol ar gyfer gwella ac maent nawr yn darparu trefniadau clir ar gyfer rheolaeth llinell.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn dechrau gweithio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'i ddibenion a'i werthoedd ac i ddiffinio arferion gwaith tîm sydd â pherfformiad uchel. Fodd bynnag, ers yr arolygiad diwethaf, nid yw'r arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth a'r deilliannau mewn meysydd pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, presenoldeb, ansawdd yr addysgu a'r asesu, gwella'r ethos Cymraeg a dwyieithrwydd ar draws yr ysgol. Nid yw'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi llwyddo i wneud yn siŵr bod ychydig bolisïau allweddol, fel addysgu ac asesu, yn darparu arweiniad clir i staff ar eu gwaith. Nid ydynt wedi monitro gweithrediad y rhain yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i ychydig flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a datblygiad rhifedd. Fodd bynnag, mae cynnydd o ran gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm wedi bod yn araf.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno strwythur clir a chalendr o gyfarfodydd gydag agendâu cytûn. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn cyfarfod yn fwy rheolaidd nag o'r blaen ac yn trafod agweddau allweddol ar eu gwaith, fel y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a chynnydd tuag at dargedau adrannol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn effeithiolrwydd rheolwyr canol. O ganlyniad, mae cynnydd a chyflawniad disgyblion, ynghyd ag ansawdd ac effaith addysgu, yn amrywio'n helaeth mewn pynciau ac adrannau, a rhyngddynt.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar reoli perfformiad. Mae gan yr holl staff a rheolwyr dri tharged perfformiad yn seiliedig ar flaenoriaethau ysgol, adrannol a phersonol addas. Fodd bynnag, gan fod y system rheoli perfformiad yn cael ei chymhwyso'n anghyson, nid yw rheolwyr wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau bod yr holl aelodau staff yn rhoi blaenoriaethau ysgol gyfan ar waith ac yn mynd i'r afael â thanberfformio yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Ers Medi, mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fwyfwy clir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent wedi datblygu strwythur addas o bwyllgorau. Mae eu defnydd

ar ddata yn gwella ac mae'n cynnwys dealltwriaeth briodol o sut mae'r ysgol a grwpiau o ddisgyblion yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae gan bob adran lywodraethwr cyswllt ac mae hyn wedi gwella'u dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau mewn meysydd unigol. Erbyn hyn, mae'r corff llywodraethol yn derbyn ac yn dadansoddi gwybodaeth o ansawdd gwell gan yr ysgol, felly mae'n dechrau cynnig her fwy effeithiol i'r meysydd hynny yn yr ysgol sy'n tanberfformio.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau ei systemau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall y prosesau newydd yn glir ac mae hyn wedi cyfrannu at arfarniad effeithiol a gonest o berfformiad. Mae gan yr ysgol galendr defnyddiol o weithgareddau i sicrhau ansawdd ei gwaith. Mae'n cynnwys rhaglen o gyfarfodydd cyswllt sy'n fwy heriol eu natur erbyn hyn. Fodd bynnag, nid yw'r cylch newydd o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn gyflawn ac nid yw cylchoedd blaenorol wedi arwain at welliannau sylweddol mewn dangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4 nac wedi cryfhau ansawdd a chysondeb addysgu ac asesu ddigon.

Erbyn hyn, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn casglu tystiolaeth ddefnyddiol o weithgareddau sicrhau ansawdd bwriadus. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a gweithgareddau i gasglu barn disgyblion a rhieni. Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth gyfredol ddarlun gwell o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig feysydd, nid yw'r prosesau hunanarfarnu'n ddigon cadarn i nodi'r holl feysydd pwysig i'w gwella er mwyn llywio cynllun gwella'r ysgol, fel agweddau ar addysgu ac asesu.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n cwmpasu pob agwedd ar y fframwaith arolygu ond mae'n rhy ddisgrifiadol yn gyffredinol. Nid oes digon o fanylion am y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau mewn gwersi. Mae cysylltiad clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu presennol yr ysgol.

Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn dilyn fformat cyffredin defnyddiol. Mae pob arweinydd canol yn crynhoi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn llwyddiannus ac mae llawer ohonynt yn defnyddio ac yn dadansoddi data o amrywiaeth eang o ffynonellau yn gymwys.

Mae cysylltiad priodol rhwng cynllun datblygu'r ysgol a chynlluniau datblygu adrannol. Fodd bynnag, mae llawer o gynlluniau gwella adrannol nad ydynt yn cynnwys y blaenoriaethau sy'n benodol i'w hadran a rhoddant ormod o bwyslais ar yr holl flaenoriaethau sydd wedi'u cofnodi yng nghynllun yr ysgol. Mewn lleiafrif o gynlluniau, nid oes digon o fanylion am sut a phryd y bydd arweinwyr canol yn monitro ac yn mesur cynnydd yn erbyn eu targedau.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Mae systemau hunanarfarnu wedi gwella'n ddiweddar, ond nid yw'r trefniadau hyn wedi effeithio ar berfformiad mewn dangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, mae gormod o

anghysondeb o hyd yn ansawdd yr addysgu a'r asesu ac wrth fonitro rolau arweinwyr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau cadarn gyda'i hysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda pan fyddant yn ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 7. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng penaethiaid a threfniadau cymedroli priodol. Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ag ysgolion cynradd partner i gasglu gwybodaeth am fedrau rhifedd disgyblion er mwyn cynnig parhad a dilyniant yn y ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith y gwaith hwn. Mae'r gwaith pontio i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd wedi'i danddatblygu.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae cysylltiadau cryf â'r colegau addysg bellach lleol i sicrhau bod yr ysgol yn gallu darparu ystod o gyrsiau priodol i fodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu. Caiff ansawdd y ddarpariaeth hon ei fonitro'n rheolaidd ac yn effeithiol yn ystod cyfarfodydd misol.

Nid yw'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a lleiafrif o rieni wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae diffyg cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref ac nid yw rhieni'n cael digon o gyfle i roi adborth ar faterion pwysig a datblygiadau polisi.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â phrifysgolion yng ngogledd Cymru i gefnogi ceisiadau a dilyniant disgyblion i addysg uwch.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithlon. Mae cymwysterau addas gan staff i gyflwyno'r cwricwlwm yn briodol ac mae bron pob un ohonynt yn addysgu eu pwnc arbenigol neu eu hail bwnc. Yn ogystal, mae staff cymorth yn gweithio'n effeithiol gydag athrawon a disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol i fodloni anghenion staff o ran datblygiad proffesiynol parhaus ac i fodloni blaenoriaethau'r ysgol wedi'u tanddatblygu. Mae cymorth priodol ar gael i staff newydd neu'r rhai sy'n ymgymryd â rolau arwain newydd yn yr ysgol ond mae cyfleoedd datblygu penodol i staff unigol eraill yn gyfyngedig. Mae hyfforddiant ysgol gyfan wedi canolbwyntio ar faterion pwysig fel asesu ar gyfer dysgu a llythrennedd ond nid yw gweithgareddau wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae trefniadau manwl ac effeithiol gan yr ysgol i fonitro ei gwariant. Mae'r pennaeth gweithredol, y rheolwr busnes, y swyddog cyllid a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon. Ar y cyd â'r awdurdod lleol, mae'r ysgol yn bwriadu mynd i'r afael â diffyg cytûn trwyddedig yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Mae darpariaeth y chweched dosbarth yn gost effeithiol.

Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd priodol o gyllid y grant amddifadedd disgyblion. Mae wedi ariannu cymorth dysgu i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae hyn wedi arwain at berfformiad gwell gan ei disgyblion mwyaf agored i

niwed ym mwyafrif y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn arfarnu effaith y cynllun yn ffurfiol.

Ar sail perfformiad presennol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella'n sylweddol yn 2014. Mae perfformiad yn 2014 yn gosod yr ysgol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tro cyntaf er 2010 ac yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg, ar ôl tair blynedd yn yr 50% is. Yn 2014, mae perfformiad uwchlaw'r disgwyliadau wedi'u modelu.

Mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol ar lefel 5 neu uwch yn dangos patrwm tebyg o welliant. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu uwch wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf; fodd bynnag, ac eithrio yn 2014, mae perfformiad er 2011 wedi gosod yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg. Yn 2014, mae perfformiad ar lefel 6 neu uwch uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tro cyntaf er 2009 ond mae perfformiad wedi bod yn yr 50% is o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim er 2010. Yn 2014, mae perfformiad ar lefel 7 neu uwch islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac mae'n gosod yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Fe wnaeth perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu uwch wella yn 2014. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ar lefel 6 neu uwch, mae perfformiad mewn Cymraeg yn 2014 uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tro cyntaf er 2010 ac mae wedi bod yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf. Ar lefel 7 neu uwch, mae perfformiad wedi bod yn yr 50% is o ysgolion tebyg yn ystod dwy o'r pum mlynedd diwethaf ond, at ei gilydd, mae islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu uwch wedi gwella, a heblaw am 2012, mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim er 2008. Ar lefel 6 neu uwch, mae perfformiad wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu er 2008 ac yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg er 2009. Ar lefel 7 neu uwch, fe wnaeth perfformiad wella'n sylweddol yn 2014. Mae perfformiad wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion ac yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu uwch wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion er 2012. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi bod yn yr 50% is o ysgolion tebyg yn ystod dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Ar lefel 6 neu uwch a lefel 7 neu uwch, mae perfformiad yn wannach at ei gilydd na pherfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi dangos rhyw lawer o welliant er 2011. Yn 2014, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg am y tro cyntaf er 2010 ac mae perfformiad wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion er 2010. Yn 2014, mae perfformiad yn y dangosydd hwn islaw disgwyliadau wedi'u modelu.

Fe wnaeth perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wella yn 2013 a chafodd y gwelliant hwn ei gynnal yn 2014. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ac uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Ar lefel 1, mae perfformiad wedi parhau'n weddol gyson yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2014, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd hwn osod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu am y pedair blynedd diwethaf ac wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi cynnal yr un gwelliant yn y dangosydd hwn ag ysgolion eraill yng Nghymru ac mae perfformiad o gymharu â disgwyliadau wedi'u modelu yn dirywio.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ond yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn yr 50% is o ysgolion tebyg.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol wedi amrywio. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 wedi dirywio ac wedi gosod yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg yn ystod dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yn 2014, fe wnaeth perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 2 ddirywio'n sylweddol. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac mae'n gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, gwelir y gwahaniaeth mwyaf rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn Cymraeg a Saesneg. Nid yw bechgyn yn ysgrifennu cystal â merched. Yng nghyfnod allweddol 4, mae gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched ar lefel 2 mewn Cymraeg. Mae perfformiad bechgyn yn y pwnc hwn yn wannach na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Yn 2014, yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wella'n sylweddol ym mhob dangosydd ansawdd. Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda o gymharu â'r un grŵp mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2014, fe wnaeth perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wella ym mwyafrif y dangosyddion, er nad yw perfformiad mor gryf â'r perfformiad yng nghyfnod allweddol 3. Yn 2014, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw cyfartaledd y teulu ar ôl tair blynedd islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Ar lefel 2, mae perfformiad yn 2014 islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ar ôl dwy flynedd uwchlaw. Cyflawnodd pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim drothwy lefel 1 yn 2013 a

2014. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi’i chapio wedi bod uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion yn ystod tair o’r pum mlynedd diwethaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae’r holl ddisgyblion naill ai’n parhau â’u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 247 | 92<br>37%<br>44% | 147<br>60%<br>52% | 7<br>3%<br>4% | 1<br>0%<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying | 247 | 29<br>12%<br>26% | 153<br>62%<br>57% | 57<br>23%<br>14% | 8<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I have someone to talk to if I am worried | 245 | 63<br>26%<br>38% | 161<br>66%<br>52% | 19<br>8%<br>8% | 2<br>1%<br>1% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| The school teaches me how to keep healthy | 246 | 37<br>15%<br>23% | 148<br>60%<br>56% | 54<br>22%<br>18% | 7<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 245 | 90<br>37%<br>45% | 123<br>50%<br>45% | 31<br>13%<br>9% | 1<br>0%<br>2% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 247 | 51<br>21%<br>32% | 182<br>74%<br>62% | 8<br>3%<br>5% | 6<br>2%<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 246 | 52<br>21%<br>38% | 170<br>69%<br>55% | 22<br>9%<br>6% | 2<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 247 | 27<br>11%<br>20% | 131<br>53%<br>54% | 61<br>25%<br>21% | 28<br>11%<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 246 | 64<br>26%<br>45% | 161<br>65%<br>46% | 21<br>9%<br>7% | 0<br>0%<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Pupils behave well and I can get my work done | 247 | 21<br>9%<br>10% | 150<br>61%<br>57% | 67<br>27%<br>27% | 9<br>4%<br>6% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 245 | 34<br>14%<br>29% | 125<br>51%<br>50% | 71<br>29%<br>17% | 15<br>6%<br>5% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 246 | 13<br>5% | 105<br>43% | 112<br>46% | 16<br>7% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 53% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 245 | 42<br>17% | 183<br>75% | 18<br>7% | 2<br>1% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 245 | 50<br>20% | 151<br>62% | 41<br>17% | 3<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 246 | 59<br>24% | 159<br>65% | 25<br>10% | 3<br>1% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 245 | 53<br>22% | 174<br>71% | 17<br>7% | 1<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 105 | 18<br>17% | 61<br>58% | 19<br>18% | 7<br>7% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 29% | 51% | 16% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 72 | 12<br>17% | 44<br>61% | 13<br>18% | 3<br>4% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 28% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 103 | 13 | 58 | 24 | 8 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 13% | 56% | 23% | 8% | | |
| | | 43% | 50% | 5% | 1% | | |
| My child likes this school. | 103 | 25 | 56 | 15 | 6 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 24% | 54% | 15% | 6% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 102 | 30 | 53 | 13 | 4 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 29% | 52% | 13% | 4% | | |
| | | 50% | 44% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 103 | 19 | 55 | 23 | 5 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 18% | 53% | 22% | 5% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 103 | 6 | 62 | 19 | 7 | 9 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 6% | 60% | 18% | 7% | | |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 102 | 6 | 61 | 24 | 6 | 5 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 6% | 60% | 24% | 6% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 102 | 18 | 67 | 11 | 6 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 18% | 66% | 11% | 6% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 103 | 8 | 48 | 25 | 9 | 13 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 8% | 47% | 24% | 9% | | |
| | | 31% | 53% | 9% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 103 | 13 | 49 | 19 | 11 | 11 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 13% | 48% | 18% | 11% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 103 | 20 | 55 | 13 | 5 | 10 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 19% | 53% | 13% | 5% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 103 | 25 | 62 | 7 | 5 | 4 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 24% | 60% | 7% | 5% | | |
| | | 42% | 51% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional | 93 | 13 | 29 | 16 | 14 | 21 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth |
| | | 14% | 31% | 17% | 15% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| support in relation to any particular individual needs'. | | 32% | 45% | 7% | 2% | | ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 103 | 16<br>16% | 50<br>49% | 26<br>25% | 10<br>10% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 34% | 50% | 11% | 3% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 102 | 23<br>23% | 40<br>39% | 29<br>28% | 9<br>9% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 103 | 11<br>11% | 61<br>59% | 18<br>17% | 7<br>7% | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 27% | 50% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 103 | 16<br>16% | 58<br>56% | 15<br>15% | 4<br>4% | 10 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 99 | 9<br>9% | 37<br>37% | 21<br>21% | 9<br>9% | 23 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 26% | 45% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 103 | 14<br>14% | 57<br>55% | 24<br>23% | 4<br>4% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 35% | 49% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 102 | 8<br>8% | 42<br>41% | 27<br>26% | 12<br>12% | 13 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 40% | 48% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Delyth Lloyd Gray | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Vaughan Elwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Hywel Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Anita Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| John Millington | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i chapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |